# DARTH VADER

Chredwch chi byth cerflun o bwy sydd i fyny ar dŵr gogledd orllewin Eglwys Gadeiriol Washington! Sant? Nage wir! Neb llai na'r Diafol ei hun - Darth Vader! Yn y 1980au, pan oedd y tyrau gorllewinol yn cael eu hadeiladu, cynhaliodd Eglwys Gadeiriol Washington gystadleuaeth cerflunio i blant. Yn drydydd daeth Christopher Rader gyda'i gynllun o'r dihiryn Darth Vader.  Cerfluniwyd y pen mileinig gan Jay Hall Carpenter, a cherfiwyd ef gan Patrick J. Plunkett.

Mae Darth Vader wedi codi ofn ar bob plentyn. Mae'n fwy dychrynllyd nag unrhyw fwgan! Rhyw Fendigeidfran du anferth sy'n anadlu trwy beiriant. Ond y mwyaf drwg ydy'r mwgwd. Mae'n oer, yn ddifynegiant, yn anodd ei ddarllen. A'r llais fel crombil môr diwaelod! Digon i lorio'r dewraf!

Cafodd Darth Vader, cymeriad canolog y saga *Star Wars*, ei greu gan George Lucas ac mae wedi cael ei bortreadu gan sawl actor, fel David Prowse, James Earl Jones a Hayden Christensen. Mae wedi ymddangos yn y chwe ffilm *Star Wars* ac mae'n gymeriad pwysig yn y gyfres deledu, mewn cylchgronnau, fideos a llenyddiaeth sydd wedi deillio o'r ffilmiau.

Ar y dechrau marchog Jedi o'r enw Anakin ydoedd ar ochr dywyll y 'Force'. Ef oedd tad Luke Skywalker a'r dywysoges Leia Organa. Un o'r gwrthwynebwyr drwg ydy Vader yn y trioleg cyntaf, *The Phantom Menace*, *Attack of the Clones* a *Revenge of the Sith*, ond yn y trioleg nesaf, *A New Hope*, *The Empire Strikes Back* a *Return of the Jedi* ef ydy'r arwr sy'n aberthu ei hun i achub ei fab, Luke.

**Cydnabyddiaethau:**

Yn ' *100 Years ... 100 Heroes and Villains*', Sefydliad Ffilm America yn ei enwi fel y trydydd dihiryn ffilm mwyaf yn hanes y sinema ar ôl i Hannibal Lecter a Norman Bates.

Cael ei osod yn ail ar restr y cylchgrawn *Empire* o '*The 100 Greatest Movie Characters*' yn y flwyddyn 2008.

Ar restr '*The 100 Greatest Movie Characters of All Time*' y cylchgrawn *Premier*.

Y prif ddihiryn yng nghyfres *Bravo - Ultimate Super Heroes, Vixens and Villains.*

Vader yn cael ei gydnabod fel y dihiryn mwyaf eithafol yng ngwobrau 'Scream' yn 2011.
Geiriau Darth Vader yn *The Empire Strikes Back* — "No, *I* am your father" yn cael eu henwebu ar gyfer '*100 Years ... 100 Movie Quotes*'.

